# Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022

**2022 dsc 1**

## RHAN 2

COFRESTRU A RHEOLEIDDIO DARPARWYR ADDYSG DRYDYDDOL

## PENNOD 1

COFRESTRU DARPARWYR ADDYSG DRYDYDDOL

*Datgofrestru*

### 41 Datgofrestru

(1) Rhaid i'r Comisiwn ddileu darparwr addysg drydyddol o gategori o'r gofrestr os yw'r Comisiwn yn dod yn ymwybodol—

(a) nad yw'r darparwr yn ddarparwr addysg drydyddol yng Nghymru mwyach, neu

(b) nad yw'r darparwr yn darparu'r math o addysg drydyddol sy'n ymwneud â'r categori mwyach, neu na ddarperir y math hwnnw o addysg drydyddol ar ei ran mwyach.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, bennu amgylchiadau eraill pan fo rhaid dileu darparwr cofrestredig o un neu ragor o gategorïau'r gofrestr neu o bob categori o'r gofrestr.

(3) Caiff y Comisiwn ddileu darparwr cofrestredig o gategori o'r gofrestr os yw amod A neu B wedi ei fodloni.

(4) Mae amod A wedi ei fodloni—

(a) os yw'r Comisiwn wedi arfer ei bwerau yn flaenorol o dan adran 39 (cyfarwyddydau mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio ag amodau

cofrestru parhaus) mewn perthynas â thorri un o amodau cofrestru parhaus y darparwr addysg drydyddol sy’n gymwys i’r categori cofrestru, a

(b) os yw’n ymddangos i’r Comisiwn—

(i) bod toriad unwaith eto, neu doriad parhaus, o’r amod hwnnw, neu

(ii) bod un gwahanol o amodau cofrestru parhaus y darparwr sy’n gymwys i’r categori cofrestru yn cael ei dorri neu wedi cael ei dorri.

(5) Mae amod B wedi ei fodloni os yw’n ymddangos i’r Comisiwn—

(a) bod un o amodau cofrestru parhaus y darparwr addysg drydyddol sy’n gymwys i’r categori cofrestru yn cael ei dorri neu wedi cael ei dorri, a

(b) bod ei bwerau o dan adran 39 yn annigonol i ymdrin â’r toriad (pa un a ydynt wedi cael eu harfer, yn cael eu harfer neu i’w harfer mewn perthynas ag ef ai peidio).

(6) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed mewn cysylltiad â dileu darparwr addysg drydyddol o gategori o’r gofrestr o dan yr adran hon.

(7) Caiff rheoliadau o dan is-adran (6) gynnwys darpariaeth sy’n trin y darparwr addysg drydyddol fel darparwr cofrestredig at y dibenion hynny a bennir gan y rheoliadau.

(8) Rhaid i’r Comisiwn—

(a) cynnal rhestr o ddarparwyr addysg drydyddol sydd wedi eu dileu o gategori o’r gofrestr o dan yr adran hon,

(b) cynnwys yn y rhestr honno gyfeiriad at unrhyw reoliadau a wneir o dan is-adran (6), ac

(c) rhoi’r rhestr ar gael i’r cyhoedd drwy’r cyfrwng y mae’r Comisiwn yn ystyried ei fod yn briodol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 41 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 148(2)**

**I2** A. 41 mewn grym ar 4.9.2023 at ddibenion penodedig gan O.S. 2023/919, **ergl. 3(x)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Adran 41.